

# Prifysgol Metropolitan Caerdydd

## Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl, Blwyddyn ariannol 2020-2021

### Cyflwyniad

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi ymrwymo i ddiogelu a pharchu hawliau dynol, ac mae ganddi agwedd dim goddefgarwch at gaethwasiaeth a masnachu pobl o bob math. Cyhoeddir y datganiad hwn gan Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn unol ag adran 54(1) o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac mae'n cynnwys datganiad caethwasiaeth fodern a masnachu pobl Prifysgol Metropolitan Caerdydd am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021. Yn ogystal, mae'r datganiad hwn yn nodi camau gweithredu'r Brifysgol mewn perthynas â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi y mae'r Brifysgol wedi ymrwymo ei chefnogaeth iddo.

Mae Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn cydnabod bod caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn torri hawliau dynol sylfaenol. Mae sawl ffurf o gaethwasiaeth fodern, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur dan orfod a gorfodol a masnachu pobl, pob un yn amddifadu rhyddid yr unigolyn er mwyn ei ecsbloetio er budd personol neu fasnachol.

### Strwythur Sefydliadol

Mae [Prifysgol Metropolitan Caerdydd](#) yn gorfforaeth addysg uwch a sefydlwyd o dan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (fel y'i diwygiwyd) ac yn elusen gofrestredig. Mae [strwythur a llywodraethiant y Brifysgol](#) yn cael eu rheoli drwy Fwrdd Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am gymeriad addysgol a chenhadaeth a goruchwyllo gweithgareddau. Mae'n cael ei rheoli gan y Llywydd a'r Is-ganghellor sy'n cael eu cynorthwyo gan yr uwch dîm gweithredol, y Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd Academaidd.

Mae'r Brifysgol yn gweithredu dau gampws addysgu, un campws preswyl ac un safle gwasanaethau busnes yn ninas Caerdydd. Mae'r strwythur academaidd yn cynnwys pum Ysgol: Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd, Ysgol Reoli Caerdydd, Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd, Ysgol Dechnolegau Caerdydd ac Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd.

Mae gan y Brifysgol 1,443 o staff (ac eithrio staff achlysurol) a 12,000 o fyfyrwyr wedi'u lleoli yng Nghaerdydd gyda'r boblogaeth fyfyrwyr yn dod o dros 130 o wledydd gwahanol. Mae dros 10,000 o fyfyrwyr eraill wedi'u lleoli gyda phartneriaid rhyngwladol.

Mae gan y Brifysgol is-gwmni masnachu masnachol ac is-gwmni gweithredu tramor. Trosiant y Brifysgol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n cael ei chwmpasu gan yr adroddiad hwn oedd £122.3 miliwn.

### Ein cadwynau cyflenwi

Mae'r Brifysgol yn ystyried bod ei chadwynau cyflenwi yn rhai byd-eang, yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol ac anuniongyrchol â chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i'r Brifysgol; y rhai sy'n gysylltiedig â myfyrwyr sy'n astudio yng Nghaerdydd a chyda'i phartneriaid academaidd ledled y byd; a'r rhai sy'n gysylltiedig â'i gweithwyr ei hun boed yng Nghaerdydd, manau eraill yn y DU neu dramor.

Cydnabyddir y gall achosion o gaethwasiaeth fodern ddigwydd mewn unrhyw gadwyn gyflenwi,

yn cynnwys y rhai o fewn ein gweithrediadau ni. Blaenoriaeth y Brifysgol yw parhau i graffu ar y cadwynau cyflenwi hynny sy'n cael eu hystyried yn rhai risg uchel ond byddwn yn ceisio ymchwilio ein holl gadwynau cyflenwi pan fydd cyfle rhesymol yn codi.

## **Ein polisiau a'n harferion ar gyfer atal a lliniaru caethwasiaeth fodern, masnachu pobl a chyflogaeth foesebol**

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn ei chadwynau cyflenwi nac mewn unrhyw ran o'i gweithrediadau ei hun a bod pawb sy'n cael eu cyflogi yng ngweithgareddau'r Brifysgol yn cael eu trin yn deg a phriodol. Mae [polisiau a gweithdrefnau'r Brifysgol](#) yn dangos ei hymrwymiad i weithredu'n foesebol a chydag uniondeb yn ei holl gysylltiadau busnes.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ymhellach bod angen hyrwyddo polisiau a phrosesau effeithiol yn glir, bod angen iddynt fod yn hawdd i'w deall, yn hygyrch ac yn cyd-fynd ag arferion da. Mae'r holl bolisiau staff ar gael ar fewnwyd y Brifysgol; mae canllawiau ar gyfer cyflenwyr caffael ar gael ar fewnwyd y Brifysgol; a dolenni i bolisiau perthnasol yn cael eu darparu i bartneriaid Addysg Drawswladol drwy'r llawlyfr Darpariaeth Gydwethredol, sy'n cael ei ddsbarthu i bartneriaid bob blwyddyn.

Mae'r polisi [Cadwynau Cyflenwi Moesebol](#) wedi bod ar waith gan y Brifysgol ers 2011. Mae'r polisi'n cael ei adolygu'n rheolaidd a chafodd ei ddiweddarau eto yn 2020 i sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu arferion da perthnasol. Mae gweithgarwch caffael y Brifysgol yn seiliedig ar yr egwyddorion sydd yng Nghod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwynau Cyflenwi hefyd.

Mae [polisiau a gweithdrefnau](#) gweithle'r Brifysgol yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu bwriad y Cod Ymarfer, yn dangos ymrwymiad y Brifysgol i weithredu'n foesebol a chydag uniondeb yn ei holl gysylltiadau busnes, gan sicrhau nad oes caethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn digwydd yn ei weithluoedd yn y DU a thramor. Mae'r gweithluoedd tramor yn cael eu cyflogi o fewn cyfreithiau perthnasol eu lleoliad a chyda chytundeb cynrychiolwyr penodedig.

Mae gan staff fynediad i Hyb Polisiau ac A-Y o bolisiau a chanllawiau Adnoddau Dynol drwy'r porth staff mewnol, i sicrhau mynediad hawdd i'w telerau ac amodau cyflogaeth a'r polisiau diweddaraf.

Rydym yn gweithredu'r polisiau canlynol sy'n disgrifio'n dull o adnabod risgiau caethwasiaeth fodern a'r camau i'w cymryd i atal caethwasiaeth a masnachu pobl yn ei holl weithrediadau:

- **Polisi Chwythu'r Chwiban** - Rydym yn annog ein holl staff, cwsmeriaid a phartneriaid busnes eraill i adrodd am unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gweithgareddau uniongyrchol, neu gadwynau cyflenwi, ein sefydliad. Mae hyn yn cynnwys unrhyw amgylchiadau a allai arwain at fwy o risg o gaethwasiaeth neu fasnachu pobl. Mae ein gweithdrefn chwythu'r chwiban wedi'i chynllunio i'w gwneud hi'n hawdd i weithwyr ddatgelu pethau, heb ofn dial.
- **Cod Ymddygiad Proffesiynol** - Mae'n cod yn ei gwneud yn glir i weithwyr pa gamau gweithredu ac ymddygiad a ddisgwylir ganddynt wrth gynrychioli'r Brifysgol. Rydym yn ymdrechu i gynnal y safonau uchaf o ymddygiad gweithwyr ac ymddygiad moesebol wrth weithredu dramor a rheoli ein cadwyn gyflenwi.
- **Recriwtio/Gweithwyr Asiantaeth** - Mae ein Polisi Recriwtio'n nodi hawliau gweithle yn y Brifysgol. Rydym yn gwirio'n drylwyr bod gan bob gweithiwr newydd sy'n cael ei recriwtio'r hawl i weithio yn y DU. Dim ond asiantaethau cyflogaeth penodol sydd ag enw da a ddefnyddiwn i gael gweithwyr a byddwn yn gwirio arferion unrhyw asiantaeth newydd bob amser cyn derbyn gweithwyr o'r asiantaeth honno.

- **Polisi Tâl** - Mae'r Brifysgol wedi'i hachredu gan y Sefydliad Cyflog Byw, sy'n ardystio bod pob aelod o staff yn derbyn cyflog byw gwirioneddol. Mae disgwyl i weithwyr ar gontract sy'n gweithio yn y Brifysgol dderbyn cyflog byw fel y'i diffinnir gan y Sefydliad Cyflog Byw, ac mae'r Brifysgol yn gwerthuso dull cyflenwyr o weithredu Arferion Gwaith Teg, yn cynnwys y Cyflog Byw, yn unol â chanllawiau statudol.
- **Cod ymddygiad cyflenwyr/caffael** – Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio â'r safonau moeseg uchaf. Mae gofyn i gyflenwyr ddangos eu bod yn darparu amodau gwaith diogel lle bo angen, trin gweithwyr ag urddas a pharch, a gweithredu'n foesegol ac o fewn y gyfraith wrth ddefnyddio gweithwyr. Rydym yn gweithio gyda chyflenwyr i sicrhau eu bod yn bodloni safonau'r cod ac yn gwella amodau gwaith eu gweithwyr. Fodd bynnag, bydd achosion difrifol o dorri ein cod ymddygiad cyflenwyr yn arwain at derfynu'r berthynas fusnes.

Mae gan y Brifysgol bolisiau ar faterion fel Atal Llwgwobrwyo, Atal Gwyngalchu Arian, Atal Twyll a Llygredd, a Buddsoddi Moesegol hefyd.

### **Cadwynau cyflenwi addysg drawswladol**

Yn achos ei phartneriaid addysg drawswladol, mae'r Brifysgol yn cynnal asesiad diwydrwydd dyladwy trylwyr cyn cychwyn unrhyw berthynas addysg drawswladol ac yn ailadrodd y broses hon yn rheolaidd gydol pob partneriaeth addysg drawswladol. Mae'r broses hon yn defnyddio adnoddau fel y Mynegai Rhyddid Pobl ac yn amlygu pwysigrwydd arferion cyflogaeth moesegol sy'n dod yn rhwymedigaeth gytundebol i'r partneriaid.

Yn ystod y cyfnod a gwmpasir gan yr adroddiad hwn mae'r Brifysgol wedi adolygu a diweddarau'r contractau a ddefnyddir gydag asiantau recriwtio tramor i sicrhau bod yr asiantau hyn yn cynnal eu gweithgarwch ar ran y Brifysgol mewn modd moesegol a phriodol. Mae hyn yn atgyfnerthu'r hyfforddiant mae'n hasiantau'n ei dderbyn fel rhan o'u proses sefydlu ac fel rhan o gynhadledd asiantau recriwtio blynyddol y Brifysgol.

### **Cadwynau cyflenwi mewnol y Brifysgol**

Mae'r Brifysgol yn cynnal gwahanol wiriadau yn ystod ei gweithgarwch recriwtio, yn cynnwys 'gwiriadau hawl i weithio' ac mae ei phroses sefydlu staff yn cynnwys canllawiau ac adnoddau hyfforddi'n ymwneud â chydardoldeb ac amrywiaeth, fel rhagfarn ddjarwybod.

### **Cadwyn gyflenwi allanol y Brifysgol**

I ganfod a lliniaru risg, mae caethwasiaeth fodern yn cael ei thrafod fel rhan allweddol o bob proses gaffael, fel yr amlinellir isod:

- Mae'r tîm Caffael yn defnyddio gweithdrefnau proffilio nwyddau i fapio nwyddau'r gadwyn gyflenwi allanol i broffil risg, i nodi'r categorïau hynny sydd â risg uchel.
- Wrth dendro yn y cam dethol, defnyddir Holiadur Dethol fel safon uwchben ac islaw trothwyon caffael y DU i sicrhau bod rhesymau eithrio gorfodol a dewisol yn cael eu defnyddio. Bydd unrhyw ymgeisydd sy'n cadarnhau euogfarn yn ymwneud â Masnachu Pobl yn cael ei eithrio oni bai ei fod yn gallu dangos hunan-lanhad.
- Yng nghanu dyfarnu Caffael, gofyn cwestiynau priodol am gwmni'r ymgeisydd a pholisiau mewnol a dulliau rheoli'r gadwyn gyflenwi.
- Mae caffael yn parhau i hyrwyddo Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ac yn gofyn i bob cyflenwr gofrestru a chefnogi'r Cod gan gyfeirio ymgeiswyr at ddogfennau canllaw a fideos i'w helpu, a chysylltu â'n polisiau mewnol ni.
- Rydym yn parhau i ofyn cwestiynau sy'n briodol a pherthnasol i'r categori risg sy'n cynnwys cwestiwn Arferion Gweithio Teg y Cod Ymarfer a phan fo proffil y nwydd yn risg uwch, rydym yn gofyn cwestiynau manylach ychwanegol.
- Mae telerau ac amodau'n contract yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyflenwyr gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau nad oes unrhyw fath o gaethwasiaeth yn eu cadwynau

cyflenwi uniongyrchol ac anuniongyrchol a darparu adroddiadau i'r Brifysgol ar y mesurau a'r canlyniadau mewn perthynas â'r mater hwn.

- Mae datblygu cynaliadwy sy'n cynnwys caethwasiaeth fodern yn rhan allweddol o broses rheoli contractau'r Brifysgol ac mae cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u datblygu yn y cyfnod hwn i'w defnyddio mewn meysydd categori risg uchel.
- Fel cyflogwr cyflog byw gwirioneddol rydym yn ymrwymo i sicrhau bod ein holl gontractwyr allanol allweddol y mae eu timau'n gweithio yn y Brifysgol yn derbyn y Cyflog Byw Gwirioneddol.

Mae'r Brifysgol yn defnyddio proffil risg nwyddau'r Academi Caffael Addysg Uwch i ddilysu ei ddadansoddiad risg ei hun, sydd wedi nodi'r nwyddau canlynol fel rhai risg uchel o gaethwasiaeth fodern:

- Recriwtio staff gan gontractwyr allweddol fel staff glanhau a diogelwch
- Cyflenwadau swyddfa, yn enwedig dodrefn, cyfarpar a deunydd swyddfa
- Bwydydd a diodydd
- Dillad a dillad gwaith
- Cyfarpar TGCh a chlyweledol

Mae'r Brifysgol yn aelod [Gonsortiw m Pwrcasu Addysg Uwch, Cymru \(HEPCW\)](#) a chyda phrifysgolion eraill yn parhau i gydweithio ar bob agwedd ar gaffael cyfrifol, sy'n cynnwys caethwasiaeth fodern ac mae'n cydnabod ei fod yn fwy o fudd i wneud hynny. Rydym yn defnyddio cytundebau consortia'r DU, lle bo'n addas, sy'n rhoi hyder ychwanegol bod caffael cyfrifol wedi'i ymwreiddio'n llawn ym mhob cam o'r gadwyn gyflenwi ac sy'n ceisio darparu dull safonol ar gyfer y gadwyn gyflenwi allanol ar draws y sector AU.

Ym mis Ionawr 2021 mabwysiadodd y Brifysgol, ac aelodau eraill HEPCW, yr adnodd cynllunio gweithredu gwerth cymdeithasol [NETpositive Futures](#). Drwy ddefnyddio'r adnodd mae cyflenwyr yn cael eu cefnogi i ddatblygu cynllun gweithredu gwerth cymdeithasol NETpositive i gefnogi eu busnes a'u helpu i ddeall y cyfraniad cadarnhaol a wneir gan eu busnes. Mae HEPCW yn helpu ei aelodau gyda'r gwaith hwn drwy dargedu'n cyflenwyr niferus a rennir/cyffredin.

Bydd defnyddio'r adnodd yn ein galluogi ni i gasglu data ar y camau gweithredu gwerth cymdeithasol sy'n cael eu cymryd gan ein cyflenwyr. Mae Caethwasiaeth Fodern yn ofyniad craidd y cynlluniau gweithredu hyn a bydd 2021 yn flwyddyn llinell sylfaen ar gyfer y Brifysgol. Nodir data pennawd NETpositive isod.

## Headline figures

<b>659</b>	<b>SUPPLIERS REGISTERED</b>	
<b>2117</b>	<b>ACTION PLANS COMPLETED</b>	
<b>82% OF WHICH ARE SMES</b>		
<b>5401</b>	<b>4473</b>	<b>1897</b>
<b>ACTIONS COMMITTED TO</b>	<b>ACTIONS IN PROGRESS OR COMPLETED</b>	<b>PIECES OF EVIDENCE OF ACTION</b>
<b>100%</b>	<b>AWARE OF MODERN SLAVERY</b>	
<b>64%</b>	<b>MADE A PUBLIC COMMITMENT TO TAKING ACTION AGAINST MODERN SLAVERY</b>	
<b>63%</b>	<b>AWARE OF THE SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS</b>	

## Modern Slavery actions

	<b>IN PROGRESS</b>	<b>COMPLETED</b>	<b>NOT STARTED</b>	<b>WITH EVIDENCE</b>
Develop a robust approach to removing Modern Slavery from your supply chains	21	16	30	21
Provide Modern Slavery training for staff	17	12	37	17
Engage with your suppliers about Modern Slavery	20	14	31	20
Publish a Modern Slavery Statement	10	25	30	23
Plan a response to the discovery of Modern Slavery in your business operations	15	12	25	12

## Hyfforddiant

Mae'r tîm Caffael yn parhau i ddiweddarau eu gwybodaeth a'u hyfforddiant ar bob agwedd ar Gaethwasiaeth Fodern. Mewn blynyddoedd a fu, datblygodd y Brifysgol adnodd hyfforddi ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth a oedd yn cynnwys hyfforddiant ar gyflogaeth foesegol a chaethwasiaeth fodern. Byddwn yn ailedrych ar yr adnodd hyfforddi hwn gyda golwg ar ehangu'r hyfforddiant i aelodau staff cyfredol. Mae un o'n partneriaid allanol allweddol, Glen Cleaning Group, sy'n darparu gwasanaethau glanhau yn y Brifysgol wedi datblygu a rhannu ei hyfforddiant fideo "mewnol" ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio ar ein contract mewn ymdrech ar y cyd i weithredu lefelau uchel o wylriadwriaeth wrth ddiogelu eu timau.

## Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod

- Parhau i weithio gyda'n cyflenwyr ac annog mwy o'n cyflenwyr i ddefnyddio adnodd NETpositive
- Datblygu ac ehangu'r defnydd o adnodd NETpositive a gwybodaeth amdano, sydd wedi'i oedi yn sgil y pandemig byd-eang
- Cydweithio â HEPCW a'i aelodau i annog ein cyflenwyr cyffredin i ddefnyddio'r adnodd yn rhagweithiol ac osgoi dyblygu gwaith
- Nodi cyflenwyr fesul categori risg, nad yw HEPCW wedi cysylltu â nhw eto a hyrwyddo a'u cael i ddefnyddio adnodd NETpositive
- Sicrhau bod canllawiau i gyflenwyr ar gaethwasiaeth fodern yn cael eu cynnwys yn ein holl "becynnau" gwybodaeth tendro
- Adolygu hyfforddiant mewnol ar gaethwasiaeth fodern i weithwyr newydd a sicrhau bod modd ei gyflwyno i'n haelodau staff cyfredol
- Parhau i adolygu'r holl delerau ac amodau
- Parhau i adolygu proffiliau risg nwyddau ac ychwanegu at gwestiynau priodol ar gyfer tendro

- Sicrhau bod y broses rheoli contractau ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i feysydd nwyddau allweddol
- Parhau i hyfforddi staff caffael a staff allweddol arall ar hyfforddiant a chanllawiau caethwasiaeth fodern

**John Taylor**  
**Cadeirydd y Bwrdd**  
**Llywodraethwyr**  
**Ionawr 2022**

Mae manylion strwythur a llywodraethiant y Brifysgol yn:

<https://www.metcaerdydd.ac.uk/about/structureandgovernance/Pages/default.aspx>

*Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill ar gais - Ffôn: 029 2041 6072*